

Arolygiad (Lle Rhoddwyd Rhybudd) o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Adran Meddygaeth Niwclear –
Ysbyty Brenhinol Gwent/Bwrdd
Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad arolygu: 2 a 3 Chwefror
2021

Dyddiad cyhoeddi: 4 Mai 2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	28
4.	Beth nesaf?	36
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio...	38
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	40
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	41
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	42

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad o bell lle rhoddwyd rhybudd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o Adran Meddygaeth Niwclear Ysbyty Brenhinol Gwent ar 2 a 3 Chwefror 2021.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr AGIC ac Uwchswyddog Meddygaeth Niwclear Clinigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Public Health England, yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn:

- Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (Rheoliadau 2017)
- Cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o gydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswydd yn unol â Rheoliadau 2017.

Roedd tystiolaeth o weithlu profiadol ac ymrwymedig, gydag ethos gwaith tîm da. Ar y cyfan, roedd y staff yn fodlon ar lefel y cymorth a roddir gan yr uwch-reolwyr.

Rhoddodd trafodaethau â rheolwyr a staff yr adran yn ystod ein harolygiad sicrwydd bod trefniadau ar waith i sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn ddiogel. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen manylion ychwanegol yn y mwyafrif o'r gweithdrefnau ysgrifenedig a welsom, er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau'n adlewyrchu'r arferion sydd ar waith yn gywir.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd tystiolaeth i ddangos bod arferion datblygedig ar waith a chadarnhaodd y staff eu bod yn cael eu cefnogi i ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus.
- Dangosodd y wybodaeth a roddwyd fod trefniadau digonol wedi'u rhoi ar waith i atal heintiau ac ymgymryd â gwaith dihalogi yn effeithiol yn yr adran. Roedd y trefniadau hyn wedi'u hatgyfnerthu yn sgil COVID-19.
- Roedd trefniadau ar waith i alluogi cleifion i roi adborth ar eu profiadau o ddefnyddio'r adran.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i holl weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr gael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r arferion a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn gywir, eu bod yn adlewyrchu gofynion Rheoliadau 2017, a'u bod yn rhoi'r lefel ofynnol o wybodaeth i arwain y staff wrth gyflawni eu rolau
- Sicrhau y caiff arfarniadau staff eu cynnal fel mater o drefn, er mwyn nodi a monitro anghenion hyfforddi a datblygu

- Diweddarau'r cynllun archwilio clinigol i gynnwys amllder archwiliadau, a sicrhau bod gan yr aelodau perthnasol o staff y capasiti i gwblhau archwiliadau, yn unol â'r amllder y cytunwyd arno
- Sicrhau bod trefniadau ar waith i adolygu dogfennau perthnasol fel mater o drefn yn unol â'r amllder y cytunwyd arno, gan gydymffurfio â gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer sicrhau ansawdd dogfennaeth.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 1 Hydref 2009, ac mae'n darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, ysbyty ac iechyd meddwl i drigolion Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a De Powys.

Mae'r bwrdd iechyd yn gwasanaethu poblogaeth o fwy na 600,000 o bobl, ac mae llawer o'r gwasanaethau cleifion mewnol ac arbenigol yn Ysbyty Brenhinol Gwent yn cefnogi'r dalgylch cyfan.

Mae Adran Meddygaeth Niwclear Ysbyty Brenhinol Gwent yn cynnwys cyfarpar megis camera gamma hybrid, sy'n cynnwys sganiwr CT integredig, calibradwr dosau a stilwyr gamma. Mae'r adran yn cyflogi nifer o staff, gan gynnwys Radiolegwyr Ymgynghorol, Cardiolegydd Ymgynghorol, Technolegwyr Clinigol a Radiograffwyr.

Mae'r adran hefyd yn cael cyngor a chymorth gan Arbenigwr Ffiseg Feddygol¹ a Gwyddonydd Clinigol drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

¹ Ystyr Arbenigwr Ffiseg Feddygol yw unigolyn sy'n meddu ar wybodaeth, hyfforddiant a phrofiad i weithredu neu gynghori ynghylch materion sy'n ymwneud â chymhwyso ffiseg ymbelydredd at gysylltiad meddygol ym maes radioleg ddiagnostig, meddygaeth niwclear a radiotherapi, y mae ei gymhwysedd yn hyn o beth wedi'i gydnabod gan awdurdod cymwys. O dan y Rheoliadau, mae'n ofynnol i bob cyflogwr sy'n cyflawni cysylltiadau meddygol benodi arbenigwr ffiseg feddygol addas.

Ansawdd profiad y claf

Fel rhan o'n harolygiad o bell, gwnaethom ystyried rhai o'r trefniadau a oedd ar waith i gyfathrebu â chleifion a chael adborth ganddynt ar y gwasanaethau a ddarperir.

Dangosodd y wybodaeth a roddwyd fod trefniadau digonol ar waith i ddiwallu anghenion cyfathrebu'r cleifion sy'n mynychu'r adran.

Roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod gwybodaeth ysgrifenedig ddigonol yn cael ei rhoi i gleifion cyn iddynt gael eu harchwiliadau yn yr adran.

Roedd trefniadau ar waith i alluogi cleifion i roi adborth ar eu profiadau o ddefnyddio'r adran, a oedd yn cynnwys arolygon cleifion, yn ogystal â phroses glir ar gyfer delio â phryderon ffurfiol am y gwasanaeth ac ymateb iddynt.

Fel rhan o'n dull arolygu o bell o dan y Rheoliadau, gwnaethom ddatblygu arolwg cleifion ar-lein er mwyn galluogi cleifion i fynegi eu barn a'u profiadau o ran y gwasanaethau a ddarperir yn yr adran. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r arolwg hwn drwy boster a arddangoswyd yn yr adran yn ystod y cyfnod cyn ein harolygiad, yn ogystal ag ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol AGIC.

Yn anffodus, ni chawsom unrhyw ymatebion gan gleifion i'n harolwg ar gyfer yr arolygiad hwn. Felly, mae'r canfyddiadau isod yn seiliedig ar drafodaethau â'r staff a'r dystiolaeth a roddwyd gan y gwasanaeth.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â'r cyfarwyddiadau a'r wybodaeth ysgrifenedig y dylid eu rhoi i gleifion cyn iddynt gael diagnosis â sylweddau ymbelydrol. Rhoddwyd enghraifft o'r dogfennau ysgrifenedig a anfonir at gleifion cyn eu hapwyntiad fel tystiolaeth. Roedd y wybodaeth yn y dogfennau hyn yn cynnwys amlinelliad byr o'r weithdrefn, y paratoadau gofynnol, gwybodaeth am statws beichiogrwydd a bwydo ar y fron, a'r cyfyngiadau yn dilyn y weithdrefn.

Ar ôl ystyried gweithdrefn y cyflogwr, nodwyd bod angen rhagor o eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am roi'r wybodaeth ysgrifenedig hon i gleifion a sut y dylai staff gadarnhau bod y claf wedi cael y wybodaeth hon, ac wedi ei deall.

Roedd gweithdrefn y cyflogwr hefyd yn nodi y dylai staff ailadrodd y wybodaeth yn y canllawiau ysgrifenedig ar lafar i'r claf, cyn gweithdrefnau. Cadarnhaodd y staff bod y trafodaethau hyn yn cael eu cynnal â chleifion fel mater o drefn.

Hefyd, cadarnhaodd y staff eu bod yn trafod manteision a risgiau'r cysylltiad â'r claf ar lafar cyn gweithdrefnau. Dywedwyd wrthym fod y staff yn arwain trafodaethau wedi'u teilwra ar gyfer pob claf. Fodd bynnag, ar ôl ystyried gweithdrefn y cyflogwr, nodwyd nad oedd y gofyniad hwn wedi'i adlewyrchu'n llawn. Dylai'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefn y cyflogwr ei diweddarau i gynnwys rhagor o fanylion am y broses o drafod y manteision â'r risgiau â'r claf, a ddylai gynnwys y broses i'w dilyn os bydd angen rhagor o gymorth ar y claf, ynghyd â chyfeiriadau at y canllawiau proffesiynol perthnasol sydd ar gael.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefn y cyflogwr mewn perthynas â rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion ei diweddarau i gynnwys manylion y trefniadau ar gyfer anfon y wybodaeth at gleifion a'r broses iddynt gadarnhau eu bod wedi ei chael.

Dylai'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ei diweddarau i gynnwys rhagor o fanylion am y broses o drafod y manteision a'r risgiau â'r claf.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedwyd wrthym fod dolen sain ar gael ym mhrif dderbynfa'r adran, er mwyn helpu cleifion sy'n gwisgo cymhorthion clyw i gyfathrebu â'r staff. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym y gellid gwneud trefniadau ychwanegol, lle bo angen, os oes gan gleifion unrhyw anawsterau cyfathrebu. Er enghraifft, dywedwyd wrthym y gellir trefnu i ddehonglwyr iaith arwyddion ddod i'r uned os oes angen.

Cadarnhaodd y staff fod gwasanaethau cyfieithu ar gael i helpu os bydd claf nad yw'n gallu cyfathrebu yn Saesneg yn dod i'r uned. Dywedwyd wrthym y gall staff drefnu i aelod o dîm y gwasanaeth cyfieithu ddod i'r uned ar gyfer apwyntiad y claf, neu y gellir darparu cymorth dros y ffôn.

Hefyd, dywedwyd wrthym fod radiograffwyr yn gweithio yn yr adran sy'n gallu sgwrsio â chleifion mewn nifer o ieithoedd os oes angen, gan gynnwys Cymraeg.

Gofal Unigol

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Cadarnhaodd y staff fod trefniadau ar waith i alluogi cleifion i roi adborth ar eu profiadau o ddefnyddio'r adran. Dywedwyd wrthym fod cardiau adborth ar gael yn yr adran er mwyn galluogi cleifion i fynegi eu barn. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod adborth gan gleifion yn cael ei rannu â nhw'n rheolaidd. Fodd bynnag, dangosodd yr ymatebion i'n harolwg staff fod y mwyafrif o'r staff a ymatebodd wedi dweud nad oeddent yn cael diweddariadau rheolaidd am adborth cleifion ar eu profiadau.

Hefyd, dywedwyd wrthym y caiff arolygon cleifion eu cwblhau bob blwyddyn ar gyfer gwasanaeth radioleg cyfan y bwrdd iechyd. Fel rhan o'n harolygiad, gwnaethom ystyried canlyniadau'r arolwg diweddaraf a gwblhawyd ym mis Medi 2020, a oedd yn dangos bod yr adborth cyffredinol gan gleifion yn gadarnhaol iawn.

Esboniodd y staff pan fyddai pryderon yn cael eu codi gan gleifion ar lafar, y byddai ymdrechion yn cael eu gwneud yn y lle cyntaf, lle y bo'n bosibl, i geisio datrys y materion ar unwaith. Fodd bynnag, pe bai'r claf am wneud cwyn ffurfiol o hyd, byddai'n cael ei gyfeirio at weithdrefn gwyno GIG Cymru, Gweithio i Wella². Dywedwyd wrthym fod posterï wedi'u harddangos yn yr adran yn hysbysu cleifion am y weithdrefn hon.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr pan fydd unrhyw gwynion ffurfiol yn cael eu gwneud, y bydd Tîm Gweithio i Wella yn hysbysu arweinydd yr adran, a fydd wedyn yn sicrhau yr ymchwiliad i'r pryder ac yr ymateb i'r achwynydd. Dywedwyd wrthym y caiff unrhyw wersi a ddysgwyd o ganlyniad i bryderon a godwyd eu rhannu â'r aelodau perthnasol o'r staff.

² 'Gweithio i Wella' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Mae pryderon yn cynnwys materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol sicrhau bod trefniadau ar waith i roi diweddariadau rheolaidd i'r staff am yr adborth a geir gan gleifion ar eu profiadau o'r gwasanaeth.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswydd yn unol â Rheoliadau 2017.

Dangosodd y wybodaeth a roddwyd fod y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau digonol ar waith i atal heintiau a chynnal gwaith dihalogi effeithiol yn yr adran.

Rhoddodd trafodaethau â rheolwyr a staff yr adran yn ystod ein harolygiad sicrwydd bod trefniadau ar waith i sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn ddiogel. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen manylion ychwanegol yn y mwyafrif o'r gweithdrefnau ysgrifenedig a welsom, er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau yn adlewyrchu'r arferion sydd ar waith yn gywir. Mae ein canfyddiadau yn yr adran hon yn cynnwys rhai o'r meysydd lle y nodwyd bod angen manylion ychwanegol.

Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Dyletswyddau cyflogwr

Adnabod cleifion

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig gyfredol i'r staff ei dilyn er mwyn adnabod cleifion yn gywir cyn iddynt ddod i gysylltiad ag ymbelydredd Ïoneiddio. Nod y weithdrefn hon oedd sicrhau bod y claf cywir yn cael y cysylltiad cywir ag ymbelydredd Ïoneiddio yn unol â gofynion Rheoliadau 2017. Roedd y weithdrefn yn nodi bod disgwyl i'r staff gadarnhau enw llawn, cyfeiriad cartref a dyddiad geni'r claf. Mae'r dull hwn yn unol â chanllawiau presennol y DU³.

³ Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018); Guidance to the Ionising Radiation (Medical Exposure) Regulations 2017

Roedd y wybodaeth yng ngweithdrefn y cyflogwr hefyd yn nodi'r camau y dylai'r staff eu cymryd pe byddent yn dod i gysylltiad â mathau gwahanol o gleifion, gan gynnwys unigolion yr ystyrir o bosibl nad oes ganddynt alluedd, cleifion pediatrig, unigolion â nam ar eu clyw ac unigolion na allant gyfathrebu yn Saesneg.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu nodi'n glir y camau y maent yn eu cymryd fel mater o drefn i adnabod cleifion yn gywir cyn archwiliadau yn yr adran.

Unigolion sy'n gallu beichiogi (holi am feichiogrwydd)

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â'r broses ar gyfer canfod a yw claf benywaidd yn feichiog neu a allai fod yn feichiog, cyn cynnal archwiliad meddygol niwclear. Nod y weithdrefn hon oedd sicrhau bod ymholiadau o'r fath yn cael eu gwneud mewn modd safonol a chyson. Roedd gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr yn cynnwys cyfeiriadau at derminoleg o Reoliadau 2000, a dylid ystyried ei diweddarau gan gyfeirio at ganllawiau cyrff proffesiynol. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y weithdrefn ei diweddarau i gyfeirio at y derminoleg o Reoliadau 2017 h.y. unigolion sy'n gallu beichiogi.

Roedd y weithdrefn yn nodi'r broses y dylai'r staff ei dilyn yn dibynnu ar ymatebion yr unigolyn. Roedd y manylion yn cynnwys ystod oedran cleifion y dylid gofyn iddynt am feichiogrwydd, sef rhwng 12 a 55 oed. Roedd y weithdrefn ysgrifenedig hefyd yn cynnwys canllawiau mewn perthynas â chleifion sy'n bwydo ar y fron, er mwyn sicrhau y caiff y camau angenrheidiol eu cymryd lle bo angen.

Yn ogystal â gweithdrefn y cyflogwr, rhoddwyd tystiolaeth hefyd o siart lif beichiogrwydd a siart lif atal cenhedlu sydd ar gael i'r staff sy'n gweithio yn yr adran. Roedd y dogfennau hyn yn nodi'r camau i'w cymryd yn dibynnu ar ymatebion y claf. Gallai'r staff y gwnaethom siarad â nhw ddisgrifio eu cyfrifoldebau mewn perthynas â holi am feichiogrwydd, a oedd yn unol â'r weithdrefn a oedd ar waith.

Fel y nodwyd yn flaenorol, cadarnhaodd y staff y caiff llythyr apwyntiad ysgrifenedig ei anfon at gleifion cyn unrhyw archwiliad yn yr adran. Mae'r wybodaeth yn y llythyr hwn yn cynnwys statws beichiogrwydd ac ymholiadau am fwydo ar y fron. Hefyd, dywedwyd wrthym fod poster wedi'u harddangos yn yr adran yn hysbysu unigolion y dylid siarad ag aelod o'r staff os ydynt yn feichiog neu'n meddwl y gallent fod yn feichiog.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y weithdrefn ar gyfer nodi a all unigolion fod yn feichiog ei diweddarau i gyfeirio at y derminoleg o Reoliadau 2017, gan gyfeirio at ganllawiau cyrff proffesiynol, h.y. unigolion sy'n gallu beichiogi.

Cysylltiadau â delweddu anfeddygol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn gyfredol ar waith a oedd yn nodi nad oedd unrhyw gysylltiadau anfeddygol⁴ yn cael eu cyflawni yn y bwrdd iechyd ar hyn o bryd.

Canllawiau atgyfeirio

Mae'r canllawiau atgyfeirio sydd ar waith yn seiliedig ar gyhoeddiad iRefer Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, sy'n nodi'r meini prawf ar gyfer atgyfeirio a'r dos o ymbelydredd ar gyfer unigolion sydd am atgyfeirio claf ar gyfer delweddu.

Hefyd, roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith yn nodi'r broses atgyfeirio y dylai unigolion ei dilyn. Roedd y wybodaeth yn y ddogfen hon yn nodi y caiff atgyfeiriadau eu derbyn gan atgyfeirwyr awdurdodedig, ar yr amod eu bod yn unol â'r canllawiau penodedig ar gyfer atgyfeirio. Mae'r wybodaeth ofynnol yn cynnwys manylion perthnasol y claf, enw a llofnod y clinigydd sy'n ei atgyfeirio, yr archwiliad sydd ei angen a gwybodaeth glinigol ddigonol i gyfiawnhau'r cysylltiad.

Roedd y wybodaeth ofynnol wedi'i nodi ar ffurflen cais i atgyfeirio electronig yr adran, a ddarparwyd fel tystiolaeth. Cawsom hefyd gopi papur o'r ffurflen cais i atgyfeirio fel tystiolaeth, a oedd hefyd yn cynnwys y wybodaeth ofynnol. Fodd bynnag, gwelsom fod y ffurflen yn cyfeirio at Reoliadau 2000 yn hytrach na Rheoliadau 2017. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y manylyn hwn ei gywiro ar y ffurflen.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod y bwrdd iechyd wedi prynu trwyddedau perthnasol i sicrhau bod pob aelod perthnasol o'r staff yn gallu defnyddio iRefer. Hysbysir y staff meddygol am y canllawiau a'r broses atgyfeirio fel rhan o'u hyfforddiant sefydlu a thrwy eu llythyrau hawl. Hefyd, dywedwyd wrthym fod y

⁴ Mae cysylltiadau â delweddu anfeddygol yn cynnwys cysylltiadau sy'n ymwneud ag asesiadau iechyd at ddibenion cyflogaeth, dibenion mewnfudo a dibenion yswiriant. Gall y rhain hefyd gael eu cyflawni i nodi gwrthrychau sydd wedi'u cuddio yn y corff.

cyfarwyddwr gwasanaethau clinigol yn ysgrifennu at reolwyr practis pob meddygfa yn y bwrdd iechyd, i'w hysbysu am y canllawiau a'r broses atgyfeirio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y fersiwn bapur o'r ffurflen cais i atgyfeirio ei diweddarau i gyfeirio at Reoliadau 2017.

Dyletswyddau'r ymarferydd, y gweithredwr a'r atgyfeiriwr

Roedd gan y cyflogwr system ar waith i nodi rolau gwahanol y gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag atgyfeirio, cyfiawnhau a chynnal archwiliadau meddygol niwclear o dan y Rheoliadau. Roedd y Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r deiliaid dyletswydd penodol yn unol â'r Rheoliadau, sef atgyfeiriwr⁵, ymarferydd⁶ a gweithredwr⁷.

Roedd y polisi yn cynnwys rhywfaint o fanylion am y gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gall unigolyn gael hawl ffurfiol i fod yn ddeiliad dyletswydd, yn ogystal â'r gofynion hyfforddi ar gyfer deiliaid dyletswydd newydd eu penodi. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y ddogfen hon a thrafod ag uwch-aelodau o'r staff, nodwyd bod angen cynnwys rhagor o fanylion yn y polisi mewn perthynas â'r gofynion hyfforddi penodol ar gyfer pob deiliad dyletswydd cyn ac ar ôl iddynt gael hawl.

Er enghraifft, dangosodd tystiolaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan y gwasanaeth fod yn rhaid i ddeiliaid dyletswydd newydd gwblhau cyfnod sefydlu tri mis a hyfforddiant ar gyfer cyfarpar penodol. Fodd bynnag, nid oedd y Polisi Diogelwch Ymbelydredd yn cyfeirio at y gofyniad hwn.

Disgrifiodd yr uwch-reolwyr y trefniadau ar gyfer hysbysu'r staff am unrhyw newidiadau i'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith. Cyn gwneud unrhyw ddiwygiadau, caiff y newidiadau arfaethedig eu trafod ag arweinwyr y

⁵ O dan y Rheoliadau, mae atgyfeiriwr yn weithiwr gofal iechyd cofrestredig proffesiynol sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i atgyfeirio unigolion ar gyfer cysylltiad meddygol.

⁶ O dan y Rheoliadau, mae ymarferydd yn weithiwr gofal iechyd cofrestredig proffesiynol sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i fod yn gyfrifol am gysylltiad meddygol unigolyn. Prif rôl yr ymarferydd yw cyfiawnhau cysylltiadau meddygol.

⁷ O dan y Rheoliadau, ystyr gweithredwr yw unigolyn sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gyflawni'r agweddau ymarferol ar gysylltiad meddygol.

gwasanaeth. Yna, bydd arweinwyr y gwasanaeth yn trafod y diweddariadau â staff yr adran a chaiff y weithdrefn newydd hefyd ei harddangos yn yr adran er mwyn i'r staff ei gweld. Dywedwyd wrthym ei bod yn ofynnol i bob aelod perthnasol o'r staff lofnodi i gadarnhau ei fod wedi darllen a deall y polisi neu weithdrefn newydd sydd ar waith. Cadarnhaodd y staff hefyd eu bod yn gallu cael gafael ar y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol pan fo angen.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y Polisi Diogelwch Ymbelydredd, yn ogystal â gweithdrefnau perthnasol eraill y cyflogwr, eu diweddarau i gynnwys gofynion hyfforddi penodol ar gyfer rôl pob deiliad dyletswydd.

Cyfiawnhau Cysylltiadau Meddygol Unigol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi⁸ cysylltiadau meddygol yn yr adran. Ar ôl ystyried y ddogfen hon, gwnaethom nodi nifer o gyfeiriadau nad oeddent yn gyfredol, gan gynnwys cyfeiriad at Reoliadau 2000, yn ogystal ag anghysondebau eraill mewn perthynas â'r prosesau sydd ar waith. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd y weithdrefn yn glir o ran y gwahaniaeth rhwng rolau'r gweithredwyr sy'n awdurdodi o dan y canllawiau a'r ymarferydd sy'n cyfiawnhau'r cysylltiad. Nid oedd y ddogfennaeth a oedd ar gael yn adlewyrchu'n gywir yr arferion a ddisgrifiwyd yn ystod trafodaethau â'r uwch-reolwyr.

Dywedwyd wrthym fod cyfiawnhad dros gysylltiadau meddygol unigol yn cael ei gofnodi ar y ffurflenni cais radioleg a gyflwynir, drwy lofnod yr ymarferydd. Dangosodd tystiolaeth ychwanegol a gyflwynwyd fod canllawiau ar awdurdodiad dirprwyedig wedi'u cyhoeddi ar gyfer nifer o weithdrefnau er mwyn galluogi gweithredwyr, sydd â'r hawl i weithredu o dan y canllawiau ar awdurdodiad dirprwyedig, i awdurdodi cysylltiadau mewn achosion lle nad yw'n ymarferol i'r ymarferydd wneud hynny. Roedd y weithdrefn yn nodi y byddai gweithredwyr sy'n awdurdodi o dan y canllawiau yn cofnodi hynny drwy ychwanegu "(DAG)" wrth ymyl y llofnod ar y ffurflen gais.

Yn gyffredinol, awgrymodd y dystiolaeth a roddwyd fod y canllawiau ar awdurdodiad dirprwyedig yn ôl pob tebyg yn gweithio'n dda yn ymarferol yn y

⁸ Cyfiawnhau yw'r broses o bwyso a mesur manteision disgwylledig amlygiad yn erbyn y niwed y gallai'r amlygiad ei achosi i'r unigolyn hwnnw. Awdurdodi yw'r dystiolaeth bod y broses gyfiawnhau wedi digwydd.

gwasanaeth. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y ddogfennaeth berthnasol a oedd ar gael mewn perthynas â'r canllawiau ar awdurdodiad dirprwyedig, unwaith eto, gwnaethom nodi bod angen adolygu'r wybodaeth berthnasol yn y gweithdrefnau ysgrifenedig a'i diweddarau, er mwyn sicrhau bod y manylion yn adlewyrchu'r prosesau a'r arferion sydd ar waith yn gywir.

Rhaid cyfiawnhau cysylltiadau meddygol unrhyw ofalwr a chysurwr hefyd. Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith, a chadarnhaodd yr uwch-reolwr y dylid cofnodi'r cyfiawnhad hwn gan ddefnyddio'r un broses ag a ddefnyddir i gyfiawnhau cysylltiad meddygol y claf cysylltiedig. Dywedwyd wrthym y bydd y staff yn trafod y wybodaeth berthnasol â'r gofalwr a'r cysurwr cyn y cysylltiad, ac y bydd yn ofynnol wedyn i'r unigolyn lofnodi ffurflen y cysurwr a'r gofalwr, i gadarnhau ei fod wedi deall goblygiadau'r cysylltiad. Yna, caiff y wybodaeth hon ei sganio ar gofnod y claf ar y system gwybodaeth radioleg electronig.

Ar ôl ystyried gweithdrefn y cyflogwr mewn perthynas â gofalwyr a chysurwyr, nodwyd bod angen cynnwys manylion ychwanegol er mwyn sicrhau bod y weithdrefn ysgrifenedig yn adlewyrchu'r broses sydd ar waith, a ddisgrifiwyd gan yr uwch-reolwr, yn gywir. Dylai'r weithdrefn hefyd nodi'r staff sy'n gyfrifol am gwblhau'r tasgau perthnasol mewn perthynas â chyflawni'r cysylltiadau hyn a chofnodi'r cyfiawnhad drostynt. Darparwyd gweithdrefn ychwanegol ar gyfer gofalwyr a chysurwyr yn ymwneud yn benodol â meddygaeth niwclear, ond nid oedd yn glir sut roedd y weithdrefn hon yn cyd-fynd â gweithdrefn y cyflogwr. Dylid ystyried rhesymoli'r dogfennau hyn er mwyn sicrhau eglurder ynghylch pwy yw'r ymarferydd ar gyfer y cysylltiadau hyn a beth yw'r cyfyngiadau o ran dos pan fydd gofalwyr a chysurwyr yn dod i gysylltiad â gweithdrefnau meddygaeth niwclear.

Hefyd, ar ôl ystyried ffurflen y cysurwr a'r gofalwr, gwelsom fod y ffurflen bresennol yn nodi mai'r 'tyst' fyddai'r aelod o'r staff a fyddai'n llofnodi'r ddogfen. Fodd bynnag, deallwn mai'r ymarferydd fyddai'r aelod o'r staff a fyddai'n llofnodi'r ffurflen, gan gyfiawnhau'r cysylltiad i'r unigolyn. Mae angen adolygu'r ddogfen a'i diweddarau, er mwyn sicrhau ei bod yn nodi manylion yr ymarferydd yn glir.

Yn gyffredinol, roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswydd. Fodd bynnag, yn ystod trafodaethau â'r staff, gwnaethom nodi bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch eu rolau fel deiliaid dyletswydd penodol mewn perthynas â chyfiawnhau cysylltiadau gofalwyr a chysurwyr a lle y caiff cysylltiadau eu hawdurdodi gan ddefnyddio'r canllawiau ar awdurdodiad dirprwyedig

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefnau perthnasol y cyflogwr, yn ogystal ag unrhyw ddogfennaeth berthnasol arall, eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn

sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gyfredol, yn gyson ac yn adlewyrchu'n gywir y trefniadau sydd ar waith o ran cyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff holl weithdrefnau'r cyflogwr sy'n ymwneud â chyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau meddygol eu hadolygu a'u diweddarau, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol ac yn adlewyrchu'n gywir y trefniadau sydd ar waith a rôl pob deiliad dyletswydd o dan y rheoliadau.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y ddogfennaeth ar gyfer cysurwyr a gofalwyr ei hadolygu a'i diweddarau, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol ac yn adlewyrchu'n gywir y trefniadau sydd ar waith ar gyfer nodi ymarferydd a'r cyfyngiadau o ran dos.

Optimeiddio

Roedd gan y cyflogwr drefniadau ar waith i optimeiddio⁹ cysylltiadau. Er enghraifft, roedd gweithdrefnau ar waith mewn perthynas â chofnodi ac asesu pob cysylltiad meddygol a gyflawnwyd yn yr adran. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod y staff wedi'u hyfforddi ar ddulliau o leihau dosau ar gyfer gweithdrefnau penodol. Fodd bynnag, nid oedd yn glir ble roedd y wybodaeth hon ar gael i'r staff. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff dulliau optimeiddio dosau eu dogfennau mewn gweithdrefnau gweithredu safonol.

Mae Arbenigwr Ffiseg Feddygol yr adran Meddygaeth Niwclear yn cynghori ac yn cyfrannu at y broses o optimeiddio cysylltiadau drwy gwblhau archwiliadau rheolaidd, gan gynnwys profion sicrhau ansawdd perfformiad cyfarpar ac archwiliadau o ddosau cleifion, a all arwain at argymhellion i optimeiddio gweithdrefnau penodol. Mae hyn yn helpu i sicrhau y caiff dosau cysylltiadau eu cadw mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod trefniadau ar waith i sicrhau y caiff cysylltiadau cleifion pediatriig eu hoptimeiddio. Dywedwyd wrthym mai'r darparwr radiofferyllol sy'n pennu'r raddfa ar gyfer y gweithgareddau a weinyddir, yn seiliedig ar oedran y plentyn. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod y raddfa wedi'i chymeradwyo gan yr ymarferydd trwyddedig, ond y dylid diweddarau'r protocolau lleol er mwyn nodi'n glir y ffactorau a gymeradwywyd mewn perthynas â'r raddfa yn unol â'r canllawiau arfer da priodol.

⁹ Mae optimeiddio yn cyfeirio at y broses o gadw dosau unigol mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol

Hefyd, cadarnhaodd y dystiolaeth a roddwyd fod mesurau ar waith i leihau unrhyw gysylltiadau i blant sy'n bwydo ar y fron. Fodd bynnag, wrth ystyried y ddogfennaeth berthnasol, gwnaethom nodi bod y canllawiau mewn perthynas â chleifion sy'n bwydo ar y fron wedi'u hailadrodd mewn ambell faes. Gallai hyn olygu bod y wybodaeth sydd ar gael i'r staff yn anghyson ac yn anghyfredol. Ymdrinnir yn fanylach â'r mater hwn yn yr adran 'Gweithdrefnau a Phrotocolau'.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefnau gweithredu safonol eu diweddarau i adlewyrchu'r arferion presennol mewn perthynas ag optimeiddio dosau a'r raddfa ar gyfer dosau i gleifion pediatrig.

Lefelau cyfeirio diagnostig

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer pennu ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig. Dangosodd y dystiolaeth a roddwyd fod y lefelau cyfeirio diagnostig lleol a ddefnyddiwyd yn yr adran wedi'u pennu gan yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol, a chadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod y lefelau hyn yn is na'r lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol.

Dywedwyd wrthym y caiff yr holl lefelau cyfeirio diagnostig eu hadolygu bob blwyddyn gan yr Ymarferydd Arweiniol a'r Uwch-arolygydd ar gyfer Meddygaeth Niwclear. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod yr adolygiad diweddaraf a gynhaliwyd wedi ystyried y canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cyngori ar Roi Sylweddau Ymbelydrol (ARSAC).¹⁰

Hefyd, fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn cynnal archwiliad blynyddol o ddosau cleifion a, lle bo angen, yn cyflwyno argymhellion dilynol ar gyfer lefelau cyfeirio diagnostig lleol newydd wedi'u haddasu. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr y caiff y lefelau cyfeirio diagnostig eu harddangos yn yr adran, ac y caiff y staff eu hysbysu am unrhyw addasiadau i unrhyw lefelau cyfeirio diagnostig i'w defnyddio, yn ôl yr angen.

¹⁰ Pwyllgor arbenigol ar gyfer y Deyrnas Unedig yw'r Pwyllgor Cyngori ar Roi Sylweddau Ymbelydrol (ARSAC), a noddir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r pwyllgor yn cynghori'r llywodraeth ar y defnydd o sylweddau ymbelydrol a thrwyddedau ar gyfer cyflogwyr ac ymarferwyr.

Ar ôl ystyried y wybodaeth yng ngweithdrefn y cyflogwr, nodwyd nad oedd yn adlewyrchu'n gywir y broses a ddisgrifiwyd gan y staff mewn perthynas â sefydlu ac adolygu trefniadau ar gyfer lefelau cyfeirio diagnostig, na'r broses i'w dilyn pe bai achosion cyson o fynd uwchlaw'r lefelau cyfeirio diagnostig ym maes Meddygaeth Niwclear. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y weithdrefn ei hadolygu a'i diweddarau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn adlewyrchu'r trefniadau gweithredol sydd ar waith yn gywir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas â lefelau cyfeirio diagnostig ei hadolygu a'i diweddarau, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn adlewyrchu'r trefniadau gweithredol sydd ar waith yn gywir.

Gwerthuso clinigol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ar waith a oedd yn nodi'r broses ar gyfer cynnal gwerthusiad clinigol o gysylltiadau meddygol. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr y caiff yr holl gysylltiadau meddygol eu gwerthuso, ac y caiff y canfyddiadau dilynol eu cofnodi, ar wahân i weithdrefnau biopsi nodau gwylio. Mae Rheoliadau 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cysylltiad meddygol gael ei werthuso'n glinigol gan weithredwr awdurdodedig, ac i'r gwerthusiad gael ei gofnodi. Felly, rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod trefniadau gwerthuso clinigol digonol ar waith.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr roi sicrwydd bod trefniadau ar waith i sicrhau y caiff pob cysylltiad meddygol a gyflawnir ei werthuso'n glinigol gan weithredwr awdurdodedig.

Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr

Roedd gan y cyflogwr restr o'r cyfarpar a ddefnyddir yn yr adran. Roedd y rhestr hon yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2017, ond ar ôl ystyried y ddogfen, nodwyd bod y dyddiad adolygu wedi mynd heibio (Ebrill 2020).

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod rhaglen sicrhau ansawdd ar waith ar gyfer holl gyfarpar yr adran. Dywedwyd wrthym fod y rhaglen sicrhau ansawdd wedi'i rhoi ar waith yn dilyn cyngor a chymeradwyaeth gan yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol.

Dywedwyd wrthym fod yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn ymwneud â'r rhaglen sicrhau ansawdd cyfarpar barhaus fel mater o drefn. Er enghraifft, mae'n adolygu canlyniadau'r profion a gwblheir bob chwe mis, yn datblygu protocolau ar gyfer pob prawf sicrhau ansawdd, ac yn darparu hyfforddiant a chymorth i'r staff lle bo angen.

Ar ôl ystyried y rhaglen sicrhau ansawdd cyfarpar sydd ar waith, gwnaethom nodi nad oedd y wybodaeth yn y ddogfen yn adlewyrchu'n gywir y trefniadau yn yr adran a ddisgrifiwyd yn ystod trafodaethau â'r staff.

Rhoddwyd tystiolaeth o rai o'r profion sicrhau ansawdd unigol sydd ar waith ar gyfer cyfarpar perthnasol. Gwnaethom nodi bod dau o'r protocolau sicrhau ansawdd a ddarparwyd yn cynnwys diwygiadau wedi'u gwneud â llaw. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y diwygiadau hyn eu cynnwys yn y fersiynau electronig o'r dogfennau perthnasol. Gwnaethom nodi mai dim ond un o'r taflenni canlyniadau sicrhau ansawdd a ddarparwyd fel tystiolaeth oedd yn cynnwys manylion ynglŷn â'r goddefiannau perfformiad a ganiateir. Dylai'r cyflogwr ystyried cynnwys y wybodaeth hon ym mhob protocol a thaflen canlyniadau sicrhau ansawdd. Dylai fod gwybodaeth ar gael am y camau y dylai'r staff eu cymryd os nad yw canlyniadau o fewn y gwerthoedd derbyniol.

Hefyd, ar ôl ystyried y protocolau sicrhau ansawdd, nodwyd nad oeddent yn ôl pob golwg yn dilyn y prosesau sicrhau ansawdd sydd ar waith ar gyfer gweithdrefnau ysgrifenedig. Er enghraifft, nid oedd unrhyw ddyddiad adolygu wedi'i gynnwys yn y protocolau ac, felly, nid oedd yn glir pryd y cafodd y protocol ei adolygu ddiwethaf, na phryd y byddai'n cael ei adolygu nesaf.

Yn gyffredinol, ar ôl ystyried yr holl ddogfennau sicrhau ansawdd cyfarpar a ddarparwyd fel tystiolaeth, gwnaethom nodi nad oedd y wybodaeth yn adlewyrchu'n gywir y trefniadau a ddisgrifiwyd yn ystod trafodaethau â'r staff. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff pob rhaglen, protocol a thaflen canlyniadau sicrhau ansawdd cyfarpar ei hadolygu a, lle bo angen, ei diweddarau er mwyn sicrhau ei bod yn nodi'n gywir y prosesau y cytunwyd arnynt sydd ar waith, gan gynnwys amllder pob prawf a'r meini prawf perfformiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff pob protocol sicrhau ansawdd ei adolygu'n rheolaidd, ac y caiff y manylion adolygu perthnasol eu cynnwys yn y ddogfen, yn unol â gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer sicrhau ansawdd dogfennaeth.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff protocolau a gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas â sicrhau ansawdd cyfarpar eu hadolygu a'u

diweddarau, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r trefniadau sydd ar waith yn gywir.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r asesiadau a'r trefniadau rheoli risg a oedd ar waith yn yr adran. At hynny, dangosodd ymatebion i'n harolwg staff y byddai pob aelod o'r staff a ymatebodd yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am unrhyw arferion clinigol anniogel yn yr adran, a'i fod yn hyderus y byddai ei bryderon yn cael sylw priodol. Fodd bynnag, dywedodd un o'r ymatebwyr i'n harolwg na fyddai'n gwybod sut i godi pryderon am arferion clinigol anniogel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol sicrhau y caiff pob aelod o'r staff wybodaeth am y camau y dylid eu cymryd i godi unrhyw bryderon am arferion clinigol anniogel yn yr adran.

Atal a rheoli heintiau

Dangosodd y wybodaeth a roddwyd gan y staff fod trefniadau digonol ar waith ar gyfer atal heintiau a dihalogi'n effeithiol yn yr adran. Dywedwyd wrthym fod y trefniadau hyn wedi'u hatgyfnerthu yn sgil COVID-19.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod cysylltiadau da â'r tîm atal a rheoli heintiau yn y bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym fod y tîm wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth ers dechrau'r pandemig, er mwyn rhoi diweddariadau ar y canllawiau a'r gofynion, yn ogystal ag awgrymu ffyrdd y gallai'r gwasanaeth wella ei drefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau. Cadarnhaodd y staff fod aelodau'r tîm atal a rheoli heintiau yn ymweld â'r adran yn rheolaidd i asesu'r trefniadau sydd ar waith.

Dywedwyd wrthym y cysylltir â chleifion cyn unrhyw apwyntiad yn yr adran, er mwyn gofyn iddynt gwblhau holiadur dros y ffôn i gadarnhau p'un a oes ganddynt unrhyw symptomau heintus. Pennir lefel risg i gleifion y disgwylir iddynt ddod i'r adran, yn unol â'u risg o haint. Pan fydd y claf yn cyrraedd, cymerir ei dymheredd a gofynnir cwestiynau ychwanegol iddo, er mwyn holi unwaith eto am unrhyw

symptomau perthnasol. Mae system unffordd ar waith yn yr adran, fel y gellir cadw pellter cymdeithasol digonol.

Dyweddodd y staff wrthym fod amserlenni glanhau ar waith, sy'n nodi pa mor aml y mae angen glanhau ystafelloedd a chyfarpar perthnasol ym mhob rhan o'r adran. Cadarnhaodd y staff y caiff ardaloedd perthnasol eu glanhau ar ôl pob claf, ac y bydd lefel y glanhau yn dibynnu ar lefel risg y claf. Mewn ymateb i bandemig COVID-19, roedd amser ychwanegol wedi'i neilltuo i gwblhau gweithdrefnau, gan sicrhau bod digon o amser ar gael i gwblhau'r gwaith glanhau a dihalogi gofynnol hefyd.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, a gwnaethant ddangos ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli heintiau yn yr adran.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr mai nyrs arweiniol yr adran sy'n gyfrifol am roi diweddariadau am y gofynion o ran cyfarpar diogelu personol, yn ogystal â hyfforddiant perthnasol i'r staff. Hefyd, cadarnhaodd y staff bod canllawiau ar gyfarpar diogelu personol wedi'u harddangos yn yr adran.

Dywedwyd wrthym fod storfeydd cyfarpar diogelu personol ar safle pob ysbyty, er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol ar gael. Hefyd, dywedwyd wrthym y caiff archwiliadau wythnosol o stociau cyfarpar diogelu personol eu cwblhau ar gyfer yr adran. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod digon o gyfarpar diogelu personol ar gael, a bod hyfforddiant a chanllawiau digonol wedi'u darparu.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ymwybyddiaeth o'r camau y dylid eu cymryd pe bai ganddynt unrhyw bryderon am ddiogelu. Dywedwyd wrthym fod siart lif ar gael yn yr adran sy'n nodi'r camau y dylid eu cymryd, a bod arweinydd diogelu ar gael yn yr adran i roi cyngor ac arweiniad i'r staff. Hefyd, dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein er mwyn ei helpu i sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r materion diogelu perthnasol cyfredol.

Gofal effeithiol

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Archwilio clinigol

Rhoddwyd tystiolaeth o'r cynllun archwilio clinigol sydd ar waith yn yr adran. Roedd y ddogfen hon yn nodi'r mathau o archwiliadau i'w cwblhau, ffocws clinigol pob archwiliad, yn ogystal â'r gweithredwr sy'n gyfrifol am yr archwiliad a'r dyddiad cwblhau. Fodd bynnag, nid oedd y ddogfen yn nodi'r amllder gofynnol na'r dyddiadau ailarchwilio ar gyfer yr archwiliadau a restrwyd. Dylai'r cyflogwr ystyried diweddaru'r ddogfen er mwyn sicrhau y caiff y wybodaeth hon ei chynnwys.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr na chaiff amser penodol ei neilltuo i'r staff gwblhau archwiliadau, a bod yn rhaid iddynt gwblhau'r tasgau gofynnol pan fydd hynny'n bosibl. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi bod yn her dros y flwyddyn ddiwethaf, yn sgil y pwysau ar y gwasanaeth. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff yr aelodau perthnasol o'r staff eu cefnogi i gynnal archwiliadau clinigol o dan y Rheoliadau yn unol â'r amllder y cytunwyd arno, er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu yn unol â'r safonau a'r rheoliadau gofynnol.

Rhoddwyd enghreifftiau o adroddiadau archwilio clinigol a gwblhawyd ar gyfer yr adran. Roedd un o'r adroddiadau, a oedd yn ymwneud â delweddu cardiaidd, wedi'i strwythuro'n dda ac yn nodi'r wybodaeth berthnasol yn glir, gan gynnwys y cwmpas, y fethodoleg a'r canfyddiadau. Hefyd, roedd cynllun gweithredu archwilio clinigol wedi'i gynnwys, a oedd yn nodi'r camau yr oedd angen eu cymryd, yr amserlenni a'r unigolyn cyfrifol. Fodd bynnag, cyflwynwyd adroddiad archwilio ychwanegol i ni mewn perthynas â chanlyniadau'r archwiliad o gardiau cais am radioleg, ac nid oedd yr adroddiad hwn yn cynnwys yr un lefel o fanylder nac unrhyw gynllun gweithredu. Dylai'r cyflogwr ystyried rhoi fformat adroddiad archwilio safonol ar waith, er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ei chofnodi'n gyson ac y cymerir camau gweithredu perthnasol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodir.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod trefniadau ar waith i rannu canfyddiadau archwiliadau â'r aelodau perthnasol o'r staff, gan gynnwys yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol a'r staff sy'n gweithio yn yr adran.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r cyflogwr ystyried diweddarau'r cynllun archwilio clinigol i gynnwys amllder/dyddiadau ailarchwilio ar gyfer pob un o'r archwiliadau a restrir.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod trefniadau ar waith i alluogi'r staff i gynnal archwiliadau clinigol ac archwiliadau o dan y Rheoliadau yn unol â'r amllder y cytunwyd arno.

Dylai'r cyflogwr ystyried rhoi fformat adroddiad archwilio clinigol safonol ar waith, er mwyn sicrhau y caiff y math hwn o wybodaeth ei chofnodi'n gyson.

Roedd gan y gwasanaeth gytundeb lefel gwasanaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfer darparu Arbenigwyr Ffiseg Feddygol, yn unol â Rheoliadau 2017. Roedd y rhestr o Arbenigwyr Ffiseg Feddygol a ddarparwyd yn dangos bod pedwar Arbenigwr Ffiseg Feddygol ar gael ar gyfer yr adran Radioleg gyfan yr oedd un ohonynt yn meddu ar arbenigedd ym maes Meddygaeth Niwclear. Roedd y pedwar Arbenigwr Ffiseg Feddygol a oedd wedi'u neilltuo i roi cymorth i'r adran radioleg wedi'u rhestru ar y rhestr gymeradwy ar gyfer RPA 2000, sef y corff ardystio ar gyfer Arbenigwyr Ffiseg Feddygol.

Dywedwyd wrthym fod gan bob Arbenigwr Ffiseg Feddygol yr hawl i gyflawni'r tasgau gofynnol fel gweithredwr, a bod hyn wedi'i gynnwys fel rhan o'i llythyr penodi. Dangosodd y dystiolaeth a roddwyd fod yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol wedi'u penodi gan Reolwr y Gwasanaeth Radioleg Darparwyd copi o'r llythyr penodi ar gyfer yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol ym maes Meddygaeth Niwclear. Ar ôl ystyried y ddogfen hon, nodwyd bod angen manylion ychwanegol i adlewyrchu hawl yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol i gyflawni'r tasgau gofynnol fel gweithredwr o dan Reoliadau 2017 a chwmpas eu hymarfer.

Fel y nodwyd yn flaenorol, dywedwyd wrthym fod Arbenigwyr Ffiseg Feddygol yn rhoi cymorth a chynghor mewn nifer o feysydd yn yr adran. Ymhlith y meysydd cymorth roedd darparu hyfforddiant i'r staff, sicrhau ansawdd cyfarpar, asesu dosau, adolygu protocolau clinigol, ymchwilio i gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol, ac archwilio clinigol. Cadarnhaodd yr aelodau o'r staff y gallent gysylltu â'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol am gyngor a chymorth lle bo angen, ar sail ad hoc.

Cadarnhaodd yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol fod ganddo gydberthynas weithio dda â'r cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd a'r cynghorydd gwastraff

ymbelydrol, a ddarperir drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr ddiweddarau'r llythyrau penodi ar gyfer Arbenigwyr Ffiseg Feddygol i gynnwys manylion penodol am hawl yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol fel gweithredwr o dan Reoliadau 2017 a chwmpas ei ymarfer.

Ymchwil feddygol

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr nad yw'r adran meddygaeth niwclear yn cymryd rhan mewn unrhyw ymchwil sy'n ymwneud â chysylltiadau meddygol, ac nad oes ganddi drwydded cyflogwr i wneud hynny.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal

Yn gyffredinol, roedd strwythurau rheoli sefydliadol ar waith, a oedd yn darparu llinellau adrodd ac atebolrwydd clir.

Roedd tystiolaeth o weithlu profiadol ac ymrwymedig, gydag ethos gwaith tîm da. Roedd y staff yn fodlon ar lefel y cymorth a roddwyd gan yr uwch-reolwyr.

Fel yr amlinellwyd yn yr adran flaenorol, nododd ein harolygiad y gofyniad i'r cyflogwr sicrhau y caiff holl bolisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n gywir yr arferion sydd ar waith, a'u bod yn darparu'r lefel ofynnol o wybodaeth i staff ei dilyn.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd strwythur rheoli ar waith ar gyfer y gyfarwyddiaeth radioleg, a oedd yn nodi llinellau adrodd clir ar gyfer y gwasanaeth cyfan. Roedd strwythur llywodraethu radioleg hefyd ar waith, a oedd yn nodi'r trefniadau llywodraethu, o'r adrannau radioleg perthnasol i fwrdd gweithredol y bwrdd iechyd.

Dywedwyd wrthym er bod nifer y cyfarfodydd tîm wedi lleihau o ganlyniad i COVID-19, bod yr uwch-reolwyr wedi gwneud ymdrech i ddefnyddio Microsoft Teams i gynnal cyfarfodydd â staff yr adran. At hynny, cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod ymdrechion wedi'u gwneud i ymweld â phob safle yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod y staff yn cael cyfle i siarad â nhw a chodi unrhyw bryderon neu ymholiadau. Yn gyffredinol, dangosodd yr adborth a gafwyd gan y staff eu bod yn fodlon ar lefel y cymorth gan yr uwch-reolwyr yn y gwasanaeth.

Cyn ein harolygiad, gofynnodd AGIC i uwch-aelodau o staff yr adran gwblhau a chyflwyno holiadur hunanasesu. Nod yr holiadur hwn oedd rhoi gwybodaeth fanwl i AGIC am yr adran a pholisiâu a gweithdrefnau allweddol y cyflogwr mewn perthynas â Rheoliadau 2017. Defnyddiwyd y ddogfen hon i lywio'r dull arolygu.

Dychwelwyd y ffurflen hunanasesu i AGIC o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno, ac roedd yn gynhwysfawr ar y cyfan. Er ein bod wedi nodi nifer o anghysondebau yn yr ymatebion a roddwyd, rhoddodd yr uwch-aelodau o'r staff wybodaeth ychwanegol neu eglurhad yn ddi-oed.

Ar ddiwrnodau ein harolygiad, sicrhodd y staff uwch-reoli eu bod ar gael, a gwnaethant hwyluso'r broses arolygu. Roeddent yn barod i dderbyn ein hadborth ac yn dangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i'r materion a nodwyd.

Gofyniad i feddu ar drwydded

O dan y Rheoliadau, ni chaniateir unrhyw gysylltiad sy'n ymwneud â rhoi sylwedd ymbelydrol oni fydd y cyflogwr yn meddu ar drwydded ddilys ar gyfer y safle. Roedd gan y cyflogwr drwydded ddilys mewn perthynas â'r holl wasanaethau a ddarperir ar y safle, ond roedd y drwydded hon yn dod i ben ar 13 Chwefror 2021. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod cais diwygiedig wedi'i gyflwyno i adnewyddu'r drwydded.

Dywedwyd wrthym fod grŵp prosiect wedi'i sefydlu er mwyn gwella'r trefniadau mewnol ar gyfer rheoli trwydded y cyflogwr mewn modd amserol, a thrafodwyd y gofyniad i geisiadau gael eu cyflwyno o leiaf wyth wythnos cyn i'r drwydded ddod i ben. Caiff y grŵp ei gadeirio gan y Rheolwr Gwasanaethau Radioleg ac ymhlith yr aelodau eraill mae'r Uwch-arolygydd ar gyfer Meddygaeth Niwclear, y Radiolegydd radioniwclid arweiniol a'r Prif Fferyllydd.

Dyletswyddau'r cyflogwr

Rhoi hawl

Yn gyffredinol, roedd yr aelodau o staff yr adran y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar ddealltwriaeth o'u rolau fel deiliaid dyletswydd a chwmpas eu hawl o dan y Rheoliadau. Dangosodd y dystiolaeth a roddwyd fod fframwaith digonol ar waith i roi'r hawl i staff drwy lythyrau ac i sicrhau bod staff â hawl yn cael eu hysbysu'n rheolaidd am eu hawl a chwmpas eu hymarfer. Hefyd, rhoddwyd dystiolaeth o 'gofnodion hyfforddiant mewn perthynas â hawl', ond wrth drafod â'r staff, roedd yn ymddangos mai cofnodion hyfforddiant a chymhwysedd oedd y rhain, ac nad oeddent yn cael eu defnyddio i gofnodi hawl.

Hefyd, roedd siart lif hawl ar waith, a oedd yn nodi'r aelodau o'r staff a oedd yn gyfrifol am roi'r hawl i staff ar bob lefel yn y gwasanaeth. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod matrices hawl ar gael i bob aelod o'r staff, a oedd yn nodi cwmphas ymarfer pob deiliad dyletswydd.

Fel y nodwyd yn flaenorol, gwnaethom dynnu sylw at y ffaith nad oedd gweithdrefn y cyflogwr yn adlewyrchu'r arferion presennol yn ddigonol, ac nad oedd yn cynnwys digon o fanylion am y broses o roi hawl.

Rhaid i'r cyflogwr ddiweddarau'r gweithdrefnau ysgrifenedig a'r ddogfennaeth gysylltiedig i ddarparu rhagor o fanylion am y broses bresennol o roi hawl i unigolion. Dylid ystyried darparu rhagor o fanylion am bob agwedd ar hawl, gan gynnwys y gofynion hyfforddi, y broses o roi hawl a'r ffordd y caiff cwmplas ymarfer deiliaid dyletswydd ei ddiffinio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr ddiweddarau'r gweithdrefnau ysgrifenedig a'r ddogfennaeth gysylltiedig i adlewyrchu'r arferion presennol mewn perthynas â hawl pob deiliad dyletswydd.

Gweithdrefnau a phrotocolau

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr mai prif weithredwr y bwrdd iechyd oedd wedi'i ddynodi'n gyflogwr o dan y Rheoliadau. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym er bod y cyfrifoldeb sy'n gysylltiedig â bod yn gyflogwr wedi'i neilltuo i'r Prif Swyddog Gweithredol, fod y Prif Swyddog Gweithredol wedi dirprwyo'r tasgau sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau i Gyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddor Gofal Iechyd y bwrdd iechyd. Mae'r trefniant hwn yn dderbyniol, ond nid oedd wedi'i nodi'n glir yn y ddogfennaeth ysgrifenedig a ddarparwyd fel tystiolaeth. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y dogfennau perthnasol eu hadolygu a'u diweddarau, er mwyn nodi'n glir y trefniadau cyflogwr sydd ar waith, gan gynnwys tasgau'r cyflogwr sydd wedi'u dirprwyo yn y gwasanaeth.

Fel y nodwyd yn flaenorol, cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gallu cael gafael ar y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol pan fo angen. Hefyd, cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod trefniadau ar waith i hysbysu'r staff perthnasol pan fyddai gweithdrefnau ysgrifenedig neu brotocolau'n cael eu diweddarau, ac i gadarnhau bod y staff wedi darllen a deall y dogfennau hyn.

Roedd gweithdrefn ar waith gan y cyflogwr mewn perthynas â'r rhaglen sicrhau ansawdd ar gyfer gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig y cyflogwr. Roedd y ddogfen hon yn nodi amllder gofynnol adolygiadau, y staff a oedd yn gyfrifol am adolygu dogfennau, a'r broses adolygu. Roedd y ddogfen hefyd yn nodi bod yn rhaid i unrhyw ddiweddariadau gael eu hawdurdodi gan Bwyllgor Diogelu Rhag Ymbelydredd y gwasanaeth.

Wrth ystyried y gweithdrefnau a'r protocolau ysgrifenedig a ddarparwyd fel tystiolaeth, gwnaethom nodi bod dyddiadau adolygu nifer o'r dogfennau wedi mynd heibio. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod y gwasanaeth wrthi'n adolygu'r broses sicrhau ansawdd ar gyfer gweithdrefnau ysgrifenedig a bod cynlluniau i roi system storio electronig newydd ar waith. Dywedwyd wrthym y bydd y system hon yn safoni'r broses sicrhau ansawdd sydd ar waith er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw adolygiadau eu methu, ac i'w gwneud hi'n haws i staff gael gafael ar y dogfennau perthnasol pan fo angen.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod trefniadau ar waith i adolygu'r dogfennau perthnasol yn rheolaidd, yn unol â'r dyddiadau adolygu y cytunwyd arnynt a gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer sicrhau ansawdd dogfennaeth. At hynny, dylai'r gwasanaeth sicrhau bod y dyddiadau adolygu a bennir ar gyfer y weithdrefn berthnasol yn briodol ac yn ymarferol.

Fel y nodwyd yn flaenorol, ar ôl ystyried gweithdrefnau'r cyflogwr, gwnaethom nodi nad oedd llawer o'r gweithdrefnau yn cynnwys y manylder na'r eglurder sydd eu hangen er mwyn i'r staff eu dilyn. Yn ystod trafodaethau â'r staff fel rhan o'n harolygiad, cawsom sicrwydd ynghylch yr arferion sydd ar waith. Fodd bynnag, roedd yr arferion a ddisgrifiwyd yn fanylach na'r hyn a nodir yn y gweithdrefnau ysgrifenedig.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y cynhelir adolygiad i gadarnhau bod y manylion yng ngweithdrefnau'r cyflogwr yn adlewyrchu'n gywir yr arferion y cytunwyd arnynt sydd ar waith, ac i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd yn ein hadroddiad. Dylai'r gwasanaeth ystyried cynnwys yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn fwy wrth adolygu a datblygu dogfennau gweithdrefn y cyflogwr, er mwyn cael cyngor ar gydymffurfiaeth â'r Rheoliadau a sicrhau y caiff manylion digonol eu cynnwys i adlewyrchu'r trefniadau sydd ar waith.

At hynny, ar ôl ystyried y gweithdrefnau ysgrifenedig, gwnaethon nodi bod gwybodaeth ddyblyg wedi'i chynnwys mewn nifer o feysydd, gan gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â bwydo ar y fron a gofalwyr a chysurwyr. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae hyn yn peri risg y bydd y wybodaeth sydd ar gael i'r staff yn anghyson a/neu'n anghyfredol. Fel rhan o'r broses o adolygu'r gweithdrefnau ysgrifenedig, dylai'r cyflogwr ystyried lleihau'r wybodaeth ddyblyg yn y ddogfennaeth berthnasol er mwyn lleihau'r risg y ceir unrhyw anghysondebau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff dogfennau perthnasol eu hadolygu a'u diweddarau, er mwyn cadarnhau bod y wybodaeth yn nodi'n glir y trefniadau cyflogwr o dan y Rheoliadau, gan gynnwys tasgau'r cyflogwr sydd wedi'u dirprwyo yn y gwasanaeth.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod trefniadau ar waith i adolygu'r dogfennau perthnasol yn rheolaidd, yn unol â gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer sicrhau ansawdd dogfennaeth.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff holl weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr eu hadolygu a'u diweddarau i adlewyrchu'n gywir yr arferion a'r trefniadau sydd ar waith, yn ogystal â mynd i'r afael â'r materion a nodir drwy gydol yr adroddiad hwn.

Cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol

Disgrifiodd yr uwch-reolwyr y broses sydd ar waith os bydd rhywbeth yn digwydd neu os amheuir bod rhywbeth wedi digwydd, a all fod wedi achosi cysylltiad damweiniol neu anfwriadol i gleifion. Dywedwyd wrthym ei bod yn ofynnol i'r staff hysbysu rheolwr yr adran neu'r goruchwylydd diogelu rhag ymbelydredd yn dilyn achos a amheuir. Byddant yn trafod yr achos â'r unigolion dan sylw, yn sicrhau y caiff y wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r cysylltiad ei chasglu, ac yna'n cysylltu â'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol. Bydd yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn nodi a yw'r achos yn gysylltiad damweiniol a bwriadol sylweddol y mae angen rhoi gwybod i AGIC amdano, ac yn darparu adroddiad o'r dosau dan sylw.

At hynny, dywedwyd wrthym y caiff pob achos neu achos a fu bron â digwydd ei gofnodi drwy Datix, sef y system cofnodi digwyddiadau electronig. Lle bo angen, cynhelir ymchwiliad a fydd yn arwain at adroddiad cryno, gan gynnwys unrhyw gamau gweithredu a gwersi a ddysgwyd. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr y caiff unrhyw wersi a ddysgwyd yn dilyn achosion eu rhannu â'r aelodau perthnasol o'r staff. Hefyd, dywedwyd wrthym y caiff y cleifion perthnasol bob amser eu hysbysu yn dilyn unrhyw gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r broses i'w dilyn er mwyn rhoi gwybod am achosion ac achosion a fu bron â digwydd. Hefyd, cadarnhaodd y staff fod adborth yn cael ei roi i'r adran yn dilyn achosion a gofnodwyd.

Caiff cofnod o achosion ac achosion a fu bron â digwydd ei gadw gan y gwasanaeth, ac roedd hwn yn nodi'r holl achosion a fu yn 2020, ynghyd â'r gwersi penodol a ddysgwyd a'r camau penodol a gymerwyd mewn perthynas â'r achos perthnasol. Ar ôl trafod â'r uwch-reolwyr, nodwyd nad oedd rhywfaint o'r wybodaeth mewn perthynas ag achosion blaenorol a gofnodwyd yn y ddogfen yn gyfredol. Er enghraifft, dywedwyd wrthym fod ymchwiliad wedi'i gwblhau ar gyfer achos, ond nid oedd y manylion yn y cofnod yn adlewyrchu hyn.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ar waith mewn perthynas â'r broses o roi gwybod i unigolion perthnasol am gysylltiadau damweiniol ac anfwriadol clinigol sylweddol. Roedd y weithdrefn hon yn cynnwys manylion y broses ar gyfer pob cysylltiad damweiniol ac anfwriadol. Ar ôl ystyried y ddogfen hon, gwnaethom nodi unwaith eto nad oedd y wybodaeth ynddi yn adlewyrchu'r broses a ddisgrifiwyd gan y staff.

Mae angen gwybodaeth ychwanegol yn y weithdrefn hon, mewn perthynas â'r broses o ymchwilio i gysylltiadau damweiniol ac anfwriadol, cysylltiadau damweiniol ac anfwriadol sylweddol, a chysylltiadau damweiniol ac anfwriadol clinigol sylweddol. Dylai hyn gynnwys pwy sy'n gyfrifol am bennu a yw achos yn glinigol sylweddol, y camau y dylid eu cymryd os pennir bod yr achos yn glinigol sylweddol, ble y dylid cofnodi gwybodaeth berthnasol, amserlenni ar gyfer tasgau, a'r aelodau penodol o'r staff sy'n gyfrifol am gwblhau'r tasgau ar bob cam o'r broses. Dylid ystyried cyfeirio at ganllawiau proffesiynol a gyhoeddwyd ar y diffiniad o achos clinigol sylweddol.

Hefyd, gwnaethom nodi nad oedd rhywfaint o'r wybodaeth yn y weithdrefn yn gyfredol, er enghraifft roedd y weithdrefn yn nodi y dylid rhoi gwybod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am gysylltiadau cleifion yn sgil diffygion cyfarpar. Fodd bynnag, gan fod yr hysbysiadau hyn bellach yn rhan o gwmpas y Rheoliadau, rhaid cyflwyno hysbysiadau i AGIC. Roedd y weithdrefn hefyd yn cyfeirio at y canllawiau ar gysylltiadau damweiniol ac anfwriadol sylweddol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019, a therminoleg o Reoliadau 2000, nad yw'n cael ei defnyddio mwyach.

Roedd hefyd yn cynnwys dolen i hen ffurflen AGIC ar gyfer rhoi gwybod am achos o dan y Rheoliadau, a oedd yn cynnwys cyfeiriad e-bost a phost blaenorol AGIC. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y wybodaeth hon ei diweddarau yn y weithdrefn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y cofnod digwyddiadau a gedwir gan y gwasanaeth ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol ac yn gywir.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol y cyflogwr mewn perthynas â chysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol eu hadolygu a'u diweddarau, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r broses i'w dilyn yn gywir, eu bod yn gyson â'r derminoleg yn Rheoliadau 2017, a'u bod yn mynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr adran hon.

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol mewn perthynas â chysylltiadau damweiniol neu anfwriadol eu diweddarau i adlewyrchu'r arferion presennol yn gywir, gan gynnwys y canllawiau diweddaraf ar gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol, gofynion priodol y broses ar gyfer rhoi gwybod am achosion, a manylion cyswllt AGIC.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Fel rhan o'n harolygiad, cynhaliwyd trafodaethau â'r uwch-reolwyr ar gyfer y gwasanaeth, yn ogystal â detholiad o'r staff sy'n gweithio yn yr adran. At hynny, darparwyd arolwg staff er mwyn rhoi'r cyfle i bob aelod o'r staff sy'n gweithio yn yr adran fynegi barn.

Yn gyffredinol, dywedodd y staff eu bod yn teimlo bod lefelau staffio'r adran yn ddigonol a bod ganddynt ddigon o amser i gyflawni eu rolau. Roedd yn amlwg o'n trafodaethau bod yr adran yn cynnwys staff profiadol ac ymrwymedig, a bod ethos gwaith tîm da. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, at ei gilydd, roedd y staff yn fodlon ar lefel y cymorth a roddwyd iddynt.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr bod y gwasanaeth radioleg cyfan wedi bod dan bwysau cynyddol dros y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i'r pandemig, ond ei fod hefyd wedi wynebu pwysau ychwanegol yn sgil agor Ysbyty Athrofaol newydd y Faenor yng Nghwmbrân, ym mis Tachwedd 2020. Dywedwyd wrthym fod ymdrechion wedi'u gwneud i sicrhau bod lefelau staffio digonol ar waith ar gyfer y gwasanaeth ym mhob un o ysbytai'r bwrdd iechyd. Mae hyn wedi golygu bod nifer mawr o staff wedi cael eu recriwtio i'r gwasanaeth radioleg.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr eu bod yn teimlo bod y niferoedd staffio ym mhob rhan o'r gwasanaeth yn ddiogel, a dywedwyd wrthym fod rotas staffio treigl ar waith er mwyn sicrhau y caiff lefelau staffio eu monitro'n rheolaidd ac y caiff camau priodol eu cymryd pan gaiff unrhyw ddiffygion eu nodi. At hynny, dywedwyd wrthym fod adolygiad o'r gweithlu yn yr arfaeth, y disgwyliwyd iddo gael ei gwblhau ym mis Mawrth 2021, er mwyn asesu lefelau staffio presennol y gwasanaeth yn erbyn y galw ar bob safle, a nodi unrhyw ddiffygion.

Dywedwyd wrthym fod proses ar waith i sicrhau y caiff pob aelod o'r staff adolygiad datblygu arfarnu personol (PADR) bob blwyddyn. Yn ystod y trafodaethau hyn, gall y staff drafod unrhyw faterion, yn ogystal â'u gofynion datblygu a hyfforddi eu hunain. Dywedwyd wrthym fod cydymffurfiaeth â hyfforddiant hefyd yn cael ei monitro fel rhan o broses PADR.

Dangosodd adborth gan y mwyafrif o'r staff eu bod wedi cael eu trafodaeth PADR flynyddol i drafod eu hanghenion hyfforddi, dysgu a datblygu. Yn ystod ein trafodaethau, clywsom am enghreifftiau o'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu a oedd wedi'u cynnig i'r staff fel rhan o'r broses. Fodd bynnag, dywedodd un aelod o'r staff a ymatebodd nad oedd wedi cael trafodaeth PADR gyda'i reolwr llinell yn ystod y 12 mis diwethaf.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod trefniadau ar waith i alluogi'r staff i gael cymorth llesiant ychwanegol lle bo angen. Fodd bynnag, dangosodd yr adborth a gafwyd gan y staff nad oedd pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r cymorth llesiant a oedd ar gael iddynt na sut i fanteisio arno.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol sicrhau y caiff pob aelod o'r staff drafodaeth PADR reolaidd fel y gellir nodi a monitro ei anghenion hyfforddi, dysgu a datblygu.

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol sicrhau y caiff pob aelod o'r staff wybodaeth am y cymorth llesiant ychwanegol sydd ar gael iddo.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio

AGIC sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2017](#) ac fel y'u diwygiwyd (2018).

Nod y rheoliadau yw sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu diogelu rhag cysylltiad anfwriadol, gormodol neu anghywir ag ymbelydredd meddygol ac, ym mhob achos, fod y risg sy'n gysylltiedig â chysylltiad yn cael ei asesu yn erbyn y budd clinigol.
- Nid yw cleifion yn cael eu hamlygu'n fwy na'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau'r budd a ddymunir o fewn terfynau'r dechnoleg bresennol
- Mae gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil yn cael eu diogelu

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)
- Cyrraedd unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill lle y bo'n gymwys

Fel arfer, rhoddir rhybudd am ein harolygiadau o wasanaethau gofal iechyd sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio. Caiff gwasanaethau hyd at saith wythnos o rybudd am arolygiad.

Cynhelir yr arolygiadau gan o leiaf un o arolygwyr AGIC ac fe'u cefnogir gan un o Uwch-swyddogion Clinigol Public Health England, sy'n gweithredu fel cynghorydd.

Cyn yr arolygiad, mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau ffurflen hunanasesu a darparu dogfennaeth ategol yn dystiolaeth. Mae'r arolwg o bell dros gyfnod o ddeuddydd yn cynnwys trafodaethau â'r uwch-reolwyr a'r staff gweithredol sy'n gweithio yn yr adran, mewn perthynas â'r polisiau a'r gweithdrefnau sydd ar waith.

Er mwyn ein galluogi i gasglu barn ychwanegol, caiff arolygon cleifion a staff perthnasol eu cynnal yn ystod yr wythnosau cyn ein harolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal sy'n ymwneud ag ymbelydredd ïoneiddio.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Ysbyty: Ysbyty Brenhinol Gwent

Ward/adran: Yr Adran Meddygaeth Niwclear

Dyddiad arolygu: 2 a 3 Chwefror 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Ysbyty Brenhinol Gwent

Ward/adran: Yr Adran Meddygaeth Niwclear

Dyddiad arolygu: 2 a 3 Chwefror 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefn y cyflogwr mewn perthynas â rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion ei diweddarau i gynnwys manylion y trefniadau ar gyfer anfon y wybodaeth at gleifion a'r broses iddynt gadarnhau eu bod wedi ei chael.	4.2 Gwybodaeth i gleifion Rheoliad 12 (6) Rheoliad 12 (7) Atodlen 2(h)	Adolygu Rheoliadau 12 (6) a (7) a diweddarau dogfen gweithdrefn 2(h) i gynnwys y grwpiau gwahanol o gleifion a pha wybodaeth a gaiff ei hanfon at y claf. Anfonir y wybodaeth at y claf fel rhan o'r llythyr apwyntiad felly mae'r wybodaeth ar gael cyn yr apwyntiad. Pan fydd y claf yn mynd i'r apwyntiad, gofynnir iddo gadarnhau ei fod wedi darllen y wybodaeth a roddwyd, ac wedi ei	Mark Wilkes Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	30.4.21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		deall. Caiff unrhyw gyfyngiadau ar ôl cael pigiad eu cadarnhau gan y staff cyn i'r claf adael yr adran. Diwygio'r llythyrau apwyntiad i gynnwys manylion risgiau ymbelydredd.		
Dylai'r cyflogwr sicrhau y caiff y weithdrefn ysgrifenedig ei diweddarau i gynnwys rhagor o fanylion am y broses o drafod y manteision a'r risgiau â'r claf.	Atodlen 2(i)	Trafodwyd dull Cymru gyfan o ymdrin ag Atodlen 2(i) yng nghyfarfodydd y Fforwm Ansawdd. Gofynnir am eglurder ynghylch y dull unedig a chaiff dogfen gweithdrefn 2(i) ei diweddarau er mwyn rhoi canllawiau cynhwysfawr i'r staff. Caiff y ddogfennaeth bresennol ei hadolygu er mwyn sicrhau y rhoddir mwy o ganllawiau i'r staff ynghylch yr hyn y dylid ei drafod â'r claf cyn yr archwiliad a gallu claf unigol i ddeall y derminoleg a ddefnyddir. Byddwn hefyd yn cynnwys ble y gall y claf gael gafael ar wybodaeth ychwanegol, os bydd angen, ac unrhyw ganllawiau perthnasol gan y cyrff proffesiynol perthnasol. Byddwn yn	Mark Wilkes Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	31.5.21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		parhau i gyfeirio at y ddogfen hon hyd nes y cytunir ar ddull Cymru gyfan.		
Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol sicrhau bod trefniadau ar waith i roi diweddariadau rheolaidd i'r staff am yr adborth a geir gan gleifion ar eu profiadau o'r gwasanaeth.	6.3 Gwranddo a Dysgu o Adborth	Byddwn yn mabwysiadu gwahanol fethodolegau ar gyfer rhannu adborth â'r staff ac yn mabwysiadu amrywiaeth o brosesu effeithiol, gan gynnwys arddangos canlyniadau ar hysbysfyrddau mewn ystafelloedd staff, cyfarfodydd tîm i rannu canlyniadau a negeseuon e-bost i staff, er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol ar draws pob safle.	Andrew Carter Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	30.4.21
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y weithdrefn ar gyfer nodi a all unigolion fod yn feichiog ei diweddarw i gyfeirio at y derminoleg o Reoliadau 2017, gan gyfeirio at ganllawiau cyrff proffesiynol, h.y. unigolion sy'n gallu beichiogi.	Atodlen 2 (c)	Diweddarwyd dogfen gweithdrefn 2(c) i adlewyrchu'r derminoleg briodol o Reoliadau 2017. Defnyddiwyd "unigolion sy'n gallu beichiogi" yn lle "claf benywaidd". Caiff y newid hwn ei gymeradwyo gan y pwyllgor	Mark Wilkes Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	31.5.21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Llywodraethu Clinigol a'i gyfathrebu i bob rhan o'r Gyfarwyddiaeth.		
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y fersiwn bapur o'r ffurflen cais i atgyfeirio ei diweddarau i gyfeirio at Reoliadau 2017.	Rheoliad 6(1)	Cysylltwyd â'r tîm argraffu sy'n cynhyrchu'r ffurflenni cais papur er mwyn gwneud yr addasiad angenrheidiol. Bydd y ffurflenni a argreffir yn y dyfodol yn cynnwys y cyfeiriad cywir at Reoliadau 2017. Oherwydd yr holl ffynonellau cyfeirio yn y Bwrdd Iechyd, bydd rhai ffurflenni cais sy'n cyfeirio at Reoliadau 2000 yn bodoli am gyfnod. Wrth edrych ar fformatau'r ffurflenni cais electronig, gwelwyd bod y ceisiadau o system Symphony yr Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn cynnwys yr un gwall. Gofynnwyd i'r tîm eu newid.	Andrew Carter Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	12.4.21
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y Polisi Diogelwch Ymbelydredd, yn ogystal â gweithdrefnau perthnasol eraill y cyflogwr, eu diweddarau i gynnwys gofynion hyfforddi penodol ar gyfer rôl pob deiliad dyletswydd.	Rheoliad 6(3)	Caiff y Polisi Diogelwch Ymbelydredd a holl weithdrefnau cysylltiedig y cyflogwr eu hadolygu, a chaiff rolau'r Gweithredwr a'r Ymarferydd eu diweddarau yn dilyn hynny. O ran rôl y gweithredwr, byddwn yn adlewyrchu'r defnydd o hyfforddiant y pecyn sefydlu a'r hyfforddiant	Andrew Carter Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	30.04.21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ychwanegol dilynol sy'n gysylltiedig â gweithdrefnau/archwiliadau newydd, ac yn cynnwys effaith unrhyw ddos o Ymbelydredd. O ran rôl yr Ymarferydd, mae'n ofynnol i'r unigolyn gael trwydded ARSAC, a chynnal ac adnewyddu'r drwydded honno.		
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff holl weithdrefnau'r cyflogwr sy'n ymwneud â chyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau meddygol eu hadolygu a'u diweddarau, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol ac yn adlewyrchu'n gywir y trefniadau sydd ar waith a rôl pob deiliad dyletswydd o dan y rheoliadau.	Rheoliad 11	Caiff y dogfennau sy'n ymwneud â chyfiawnhau eu hadolygu er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw wybodaeth ei dyblygu, a all arwain at gamddechongli. Mae dogfen ar wahân ar gael ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi meddygaeth niwclear, felly cyfeirir at hyn yn y ddogfen cyfiawnhau archwiliadau pelydr-X a chaiff unrhyw gyfeiriadau at feddygaeth niwclear eu dileu. Caiff rolau'r deiliaid dyletswydd eu hegluro yn y dogfennau.	Mark Wilkes Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	30.04.21
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y ddogfennaeth ar gyfer cysurwyr a gofalwyr ei hadolygu a'i diweddarau, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol ac yn adlewyrchu'n gywir y	Rheoliad 11 Atodlen 2(n)	Trafodwyd dull Cymru gyfan o ymdrin ag Atodlen 2(n) yng nghyfarfodydd y Fforwm Ansawdd. Gofynnir am eglurder ynghylch y dull unedig a chaiff dogfen gweithdrefn 2(n) ei diweddarau er mwyn	Andrew Carter	30.05.21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
trefniadau sydd ar waith ar gyfer nodi ymarferydd a'r cyfyngiadau o ran dos.		rhoi canllawiau cynhwysfawr i'r staff. Caiff y ddogfennaeth bresennol ei hadolygu er mwyn cynnwys manylion yr ymarferydd ac eglurder ynghylch cyfyngiadau dosau. Mae dogfen ar wahân ar gael ar gyfer gofalwyr a chysurwyr meddygaeth niwclear, felly cyfeirir at hyn yn y ddogfen cyfiawnhau archwiliadau pelydr-X a chaiff unrhyw gyfeiriadau at feddygaeth niwclear eu dileu. Byddwn yn parhau i gyfeirio at y ddogfen hon hyd nes y cytunir ar ddull Cymru gyfan.	Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y gweithdrefnau gweithredu safonol eu diweddarau i adlewyrchu'r arferion presennol mewn perthynas ag optimeiddio dosau a'r raddfa ar gyfer cleifion pediatrig.	Rheoliad 6(4) Rheoliad 12	Caiff y gweithdrefnau gweithredu safonol eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn nodi dulliau optimeiddio dosau. Byddwn yn gofyn i'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol adolygu'r gweithdrefnau. Caiff y protocolau lleol eu diweddarau i gynnwys y raddfa ar gyfer dosau pediatrig, a ddarperir gan gyflenwr y dos.	Alison Lee Arweinydd Meddygaeth Niwclear	30.04.21
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas â	Atodlen 2 (f)	Caiff Atodlen 2 (f) gweithdrefn y cyflogwr ei diweddarau er mwyn adlewyrchu'n fwy	Andrew Carter	30.04.21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
lefelau cyfeirio diagnostig ei hadolygu a'i diweddarau, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn adlewyrchu'r trefniadau gweithredol sydd ar waith yn gywir.		cywir y broses o bennu ac adolygu lefelau cyfeirio diagnostig penodol ar gyfer Meddygaeth Niwclear.	Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	
Rhaid i'r cyflogwr roi sicrwydd bod trefniadau ar waith i sicrhau y caiff pob cysylltiad meddygol a gyflawnir ei werthuso'n glinigol gan weithredwr awdurdodedig.	Rheoliad 12 (9)	Mae yna lythyr sy'n dogfennu'r cytundeb â'r Cyfarwyddwr Clinigol ar gyfer Llawfeddygaeth i gynnal gwerthusiad clinigol o'r gweithdrefnau ar gyfer nodi nodau gwyllo a'r broses o gofnodi'r gwerthusiad hwn yn nodiadau'r claf. Caiff gweithdrefn gweithredu safonol ei datblygu ar gyfer pob adran â chytundebau peidio â chofnodi. Bydd y weithdrefn gweithredu safonol yn nodi'r weithdrefn a pha mor aml y dylid cynnal yr archwiliadau gofynnol. Yna, byddwn yn cynnal archwiliad ar hap o nodiadau cleifion sy'n cael llawdriniaeth ar y fron er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r cytundeb. Byddwn yn rhannu canlyniad yr archwiliad hwn ag AGIC er mwyn rhoi sicrwydd.	Alison Lee Arweinydd Meddygaeth Niwclear	31.05.21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff yr holl brotocolau sicrhau ansawdd eu hadolygu'n rheolaidd, ac y caiff y wybodaeth berthnasol ei chynnwys, yn unol â gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer sicrhau ansawdd dogfennaeth.	Rheoliad 6(5)(b) Atodlen 2 (d)	Caiff y protocolau sicrhau ansawdd eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r arferion presennol, eu bod wedi'u llunio yn y fformat priodol a bod ganddynt ddyddiad adolygu ymarferol. Caiff y dogfennau eu hadolygu bob dwy flynedd oni fydd unrhyw newidiadau i reoliadau neu arferion.	Alison Lee Arweinydd Meddygaeth Niwclear	31.05.21
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff protocolau a gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas â sicrhau ansawdd cyfarpar eu hadolygu a'u diweddarau, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r trefniadau sydd ar waith yn gywir	Rheoliad 15	Caiff y rhaglen sicrhau ansawdd gyfan ar gyfer Meddygaeth Niwclear ei hadolygu, a chaiff dogfennaeth electronig briodol ei chreu er mwyn sicrhau bod gan y staff fformat safonol i gofnodi a dehongli canlyniadau. Bydd y ddogfennaeth hefyd yn cynnwys canllawiau i'r staff ar y camau unioni perthnasol i'w cymryd os na fydd canlyniadau o fewn y gwerthoedd derbyniol.	Alison Lee Arweinydd Meddygaeth Niwclear	31.05.21
Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol sicrhau y caiff pob aelod o'r staff wybodaeth am y camau y dylid eu cymryd i godi unrhyw bryderon am arferion clinigol anniogel yn yr adran.	6.3 Gwrandao a Dysgu o Adborth 7.1 Y Gweithlu	Caiff pob aelod o'r staff, gan gynnwys staff Meddygaeth Niwclear, eu hatgoffa am y broses sydd ar waith i godi unrhyw bryderon mewn perthynas ag arferion clinigol anniogel. Caiff gwybodaeth ei	Andrew Carter	30.04.21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		rhannu drwy lythyrau a sesiynau briffio i'r staff.	Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	
Dylai'r cyflogwr ystyried diweddaru'r cynllun archwilio clinigol i gynnwys amllder/dyddiadau ailarchwilio ar gyfer pob un o'r archwiliadau a restrir.	Rheoliad 7	Caiff y cynllun archwilio presennol ei ddiweddaru i gynnwys amllder yr archwiliadau arfaethedig a'r dyddiadau ailarchwilio.	Rebecca Wallace Arweinydd Ymchwil Radioleg	30.04.21
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod trefniadau ar waith i alluogi'r staff i gynnal archwiliadau clinigol ac archwiliadau o dan y Rheoliadau yn unol â'r amllder y cytunwyd arno.	Rheoliad 7	Mae'r Gyfarwyddiaeth Radioleg yn annog y staff i gymryd rhan mewn archwiliadau, ac mae'r uwch-reolwyr wrthi'n recriwtio radiograffwyr fel y gellir neilltuo amser archwilio priodol i'r aelodau unigol o'r staff, gan gynnal y gwasanaeth clinigol ar yr un pryd.	Andrew Carter Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	31.10.21
Dylai'r cyflogwr ystyried rhoi fformat adroddiad archwilio clinigol safonol ar waith, er mwyn sicrhau y caiff y math hwn o wybodaeth ei chofnodi'n gyson.	Rheoliad 7	Mae cynllun archwilio safonol wedi'i ddatblygu, a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob archwiliad yn y dyfodol.	Rebecca Wallace Arweinydd Ymchwil Radioleg	30.04.21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r cyflogwr ddiweddarau'r llythyrau penodi ar gyfer Arbenigwyr Ffiseg Feddygol i gynnwys manylion penodol am hawl yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol fel gweithredwr o dan Reoliadau 2017 a chwmpas ei ymarfer.	Atodlen 2(b)	Caiff pob llythyr penodi ar gyfer Arbenigwr Ffiseg Feddygol ei adolygu i gynnwys cadarnhad o hawl yr Arbenigwr fel Gweithredwr, ynghyd â chwmpas ei ymarfer o dan yr hawl hon.	Mark Wilkes Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	30.04.21
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r cyflogwr ddiweddarau'r gweithdrefnau ysgrifenedig a'r ddogfennaeth gysylltiedig i adlewyrchu'r arferion presennol mewn perthynas â hawl pob deiliad dyletswydd.	Atodlen 2(b)	Bydd y cyflogwr yn adolygu dogfen gweithdrefn 2(b), yn ogystal â'r siart lif hawl a'r llythyrau hawl cysylltiedig, er mwyn dangos llwybr hawl clir o'r Prif Weithredwr i ddeiliaid dyletswydd.	Mark Wilkes Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	30.04.21
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff dogfennau perthnasol eu hadolygu a'u diweddarau, er mwyn cadarnhau bod y wybodaeth yn nodi'n glir y trefniadau cyflogwr o dan y Rheoliadau, gan gynnwys tasgau'r cyflogwr sydd wedi'u dirprwyo yn y gwasanaeth.	Rheoliad 6	Caiff y ddogfennaeth ei diweddarau er mwyn nodi'n glir rôl y Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau mewn perthynas â threfniadau'r cyflogwr i ddirprwyo tasgau cysylltiedig o dan y Rheoliadau.	Andrew Carter Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	30.04.21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod trefniadau ar waith i adolygu'r dogfennau perthnasol yn rheolaidd, yn unol â gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer sicrhau ansawdd dogfennaeth.	Rheoliad 6(5)(b) Atodlen 2 (d)	Bydd y tîm uwch-reolwyr yn parhau i adolygu'r broses sicrhau ansawdd ar gyfer gweithdrefnau ysgrifenedig ac i ailddatblygu Q pulse. Ar ôl cwblhau'r adolygiad hwn, bydd yr holl ddogfennau yn cynnwys dyddiadau adolygu realistig ac ymarferol. Yn y cyfamser, bydd yr uwch-reolwyr yn sicrhau y caiff yr holl ddogfennau eu hadolygu yn unol â'u dyddiadau adolygu presennol.	Mark Wilkes Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	30.09.21
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff holl weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr eu hadolygu a'u diweddarau i adlewyrchu'n gywir yr arferion a'r trefniadau sydd ar waith, yn ogystal â mynd i'r afael â'r materion a nodir drwy gydol yr adroddiad hwn.	Rheoliad 6	Mae holl weithdrefnau'r cyflogwr wrthi'n cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r arferion gweithio presennol yn gywir, a byddant yn cael eu diwygio i ddileu unrhyw wybodaeth ddyblyg yn y dogfennau. Caiff cyngor a chanllawiau'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol eu cynnwys yn yr adolygiad.	Mark Wilkes Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	30.09.21
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y cofnod digwyddiadau a gedwir gan y gwasanaeth ei	Rheoliad 8(3)	Mae'r uwch-reolwyr wedi cynnal cyfarfod misol â phob arweinydd sy'n gyfrifol am reoli digwyddiadau Datix, er mwyn	Mark Wilkes	11.03.21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol ac yn gywir.		sicrhau y cânt eu hadolygu'n rheolaidd, bod y wybodaeth gywir wedi'i nodi, eu bod wedi'u cau lle mae'r ymchwiliadau wedi'u cwblhau, neu y caiff cynnydd ei gofnodi lle mae'r ymchwiliadau yn dal i fynd rhagddynt. Caiff system Datix newydd ar gyfer Cymru gyfan ei chyflwyno ym mis Ebrill, lle bydd modd cofnodi/codio digwyddiadau. Cynhaliwyd y cyfarfod adolygu cyntaf ar 11 Mawrth 2021.	Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol y cyflogwr mewn perthynas â chysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol eu hadolygu a'u diweddarau, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r broses i'w dilyn yn gywir, eu bod yn gyson â'r derminoleg yn Rheoliadau 2017, a'u bod yn mynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr adran hon.	Rheoliad 8(4) Atodlen 2 (I)	Gyda chymorth yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol, byddwn yn adolygu'r ddogfennaeth yn unol â'r prosesau ar gyfer cysylltiadau damweiniol ac anfwriadol. Bydd gennym brosesau y gellir eu cofnodi lle y caiff tasgau eu pennu i unigolion penodol er mwyn nodi pwy fydd yn penderfynu a yw achos yn glinigol sylweddol ac unrhyw gamau y mae angen eu cymryd.	Andrew Carter Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	30.05.21
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y caiff y gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol mewn perthynas â	Rheoliad 8(4)	Caiff pob gweithdrefn ysgrifenedig ei diweddarau i adlewyrchu'r arferion	Mark Wilkes	30.05.21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
chysylltiadau damweiniol neu anfwriadol eu diweddarau i adlewyrchu'r arferion presennol yn gywir, gan gynnwys y canllawiau diweddaraf ar gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol, gofynion priodol y broses ar gyfer rhoi gwybod am achosion, a manylion cyswllt AGIC		gweithio presennol yn yr adrannau. Caiff y manylion ar gyfer rhoi gwybod am gysylltiadau cleifion yn dilyn diffygion cyfarpar eu newid i AGIC. Caiff y derminoleg ei diweddarau i adlewyrchu'r diweddariad ar gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol a gyhoeddwyd ym mis Awst 2020 a Rheoliadau 2017.	Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	
Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol sicrhau y caiff pob aelod o'r staff drafodaeth PADR reolaidd fel y gellir nodi a monitro ei anghenion hyfforddi, dysgu a datblygu.	7.1 Y Gweithlu	Caiff cydymffurfiaeth mewn perthynas â chwblhau adolygiadau PADR ei monitro yng nghyfarfod y Grŵp Gweithredol Radioleg, yn erbyn targedau sefydledig y Bwrdd Iechyd. Byddwn yn parhau i sicrhau y caiff staff, adolygwyr ac unigolion sy'n cael adolygiad gyfle i gynnal adolygiadau PADR mewn modd amserol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.	Mark Wilkes Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	30.04.21
Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol sicrhau y caiff pob aelod o'r staff wybodaeth am y cymorth llesiant ychwanegol sydd ar gael iddo.	1.1 Hybu, Diogelu a Gwella Iechyd 7.1 Y Gweithlu	Mae posteri ym mhob adran yn hysbysu'r staff am y gwasanaeth llesiant a sut i'w ddefnyddio. Ceir hefyd ddolen ar y fewnrwyd, y mae gan bob aelod o'r staff fynediad iddi. Os bydd Rheolwr o'r farn y	Andrew Carter	06.04.21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gallai unrhyw aelod o'r staff gael budd o'r gwasanaeth llesiant, rhoddir manylion mynediad iddo. Rydym yn aml yn trafod manteision atgyfeiriad lechyd Galwedigaethol ag aelodau o'r staff y mae angen atgyfeiriad o'r fath arnynt, ac os byddant yn cytuno, yn gwneud yr atgyfeiriad. Mae'r ddogfen PADR yn cynnwys adran benodol ar lesiant, lle mae'r adolygwr a'r unigolion sy'n cael adolygiad yn trafod chwe maes fframwaith profiad y cyflogai Bwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ac mae'r adolygwr hefyd yn egluro rôl y gwasanaeth llesiant i'r unigolyn sy'n cael adolygiad, a sut y gellir defnyddio'r gwasanaeth.	Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Andrew Carter

Teitl swydd: Rheolwr Gwasanaethau Radioleg

Dyddiad: 06.04.21